# ACHREDIAD TAI YN GYNTAF CYMRU

# PROSIECT TAI YN GYNTAF CONWY SIR DDINBYCH

# GWAITH DILYNOL AR Y CYNLLUN GWEITHREDU

## IONAWR 2021

# CYFLWYNIAD

Bwriedir i'r ddogfen hon, sef cynllun gweithredu dilynol, gael ei darllen ochr yn ochr â'r adroddiad terfynol sy'n rhoi manylion Achrediad Tai yn Gyntaf Cymru a ddyfarnwyd i brosiectau Tai yn Gyntaf sydd ar waith yng Nghonwy a Sir Ddinbych. Yn yr adroddiad hwnnw, penderfynwyd ar nifer o ddulliau o weithredu yn y dyfodol. Yn y rhan fwyaf o'r achosion, y bwriad oedd gwneud y gwaith dilynol ymhen cyfnod o dri i chwe mis. Rydym wedi defnyddio'r dyddiad pryd y cafodd yr achrediad ei ddyfarnu'n swyddogol (20fed Awst 2020) wrth gyfrifo'r amser i drafod yr adroddiad dilynol hwn gyda Susan Stevenson, rheolwr y prosiectau.

Dylid nodi y bydd y pandemig COVID-19, sydd wedi cael effaith sylweddol ar draws y sectorau tai a digartrefedd, wedi newid y cyd-destun hwn. Bydd unrhyw beth nas gweithredwyd arno, neu feysydd lle mae gwaith eto i'w wneud, yn cael eu dilyn i fyny pan fydd y pandemig yn llai difrifol. Wedi dweud hynny, **nid yw** statws y camau gweithredu sydd yma yn effeithio ar yr achrediad a ddyfarnwyd i brosiectau Conwy a Sir Ddinbych, ac maent yn cael eu cymeradwyo gan Rwydwaith Tai yn Gyntaf fel ymarfer da. Bydd modd ail-ymweld â'r achrediad ei hun yn y dyfodol, gan ddilyn y broses ddogfennol a ddatblygwyd.

Dylid anfon cwestiynau i'r cyfeiriad ebost hwn: HousingFirst@cymorthcymru.org.uk.

| Gweithredu | Y Canlyniad Gwreiddiol | Y Sefyllfa ar Hyn o Bryd | Nodiadau a'r Camau Nesaf |
|---|---|---|---|
| **Parhau i adeiladu perthynas gyda landlordiaid** | Gwaith dilynol i'w wneud ymhen tri mis | Mae'r fforymau landlordiaid wedi cael eu gohirio oherwydd y pandemig. Fodd bynnag, mae'r tîm wedi datblygu gweithdai newydd a chyflwyniadau sy'n amlygu egwyddorion ar gyfer partneriaid. Fel rhan o hyn, mae'r tîm wedi creu fideos byr o staff yn siarad am y ffordd maen nhw'n gweithredu'r egwyddorion.<br><br>Mae'r tîm wedi ceisio trefnu nifer o gyfarfodydd dyrannu eiddo gyda phartneriaid ym maes tai, ond oherwydd bod rhai wedi eu canslo'n hwyr y dydd, maent i gyd wedi cael eu gohirio.<br><br>Yn lle hynny, pan fo cyflwyniadau newydd yn gyflawn, bydd y tîm yn gwahodd pob partner tai i gyfarfod ar wahân i drafod y mater a sôn am niferoedd dyrannu eiddo gan eu bod yn isel. | Dylai'r tîm barhau i ddarparu cyflwyniadau a gwneud defnydd creadigol o adnoddau megis fideos a gweithdai ar-lein. Sue i ddarparu diweddariadau byr i'r Cydlynydd Tai yn Gyntaf, yn enwedig os/pan fydd sefyllfa'r COVID yn llai anodd, a bywyd yn dychwelyd i 'normal'; bydd yn ddiddorol gweld sut mae'r perthnasoedd hyn yn parhau i ddatblygu mewn cyd-destun gwahanol.<br><br>**Gweithredu:** Gwaith dilynol i'w wneud ym mis Ebrill |
| **Datblygu llwybr Sector Rhentu Preifat (PRS)** | Gwaith dilynol i'w wneud yn yr haf (tua tri mis ar ôl y gwaith achredu) | Ar hyn o bryd, mae gan y prosiect un cleient mewn llety ar les; cymerwyd y cam hwn rhag gorfod gosod y person mewn llety dros dro. Mae hefyd wedi rhoi cyfle i'r tîm ymgysylltu â landlord PRS a dechrau adeiladu perthnasoedd.<br><br>Ymddengys fod y landlord yn bartner da, ond nid yw'r eiddo mewn lleoliad delfrydol ar gyfer y cleient.<br><br>Mae yna botensial i barhau i weithio gyda'r landlord yma hyd yn oed os bydd y cleient hwn, yn ddelfrydol, yn symud ar ryw bwynt yn y dyfodol agos. | Pan fo cyfleoedd ychwanegol a phriodol yn codi i ehangu mynediad at lety drwy'r PRS, dylai'r tîm fanteisio ar y cyfleoedd hynny.<br><br>**Gweithredu:** Gwaith dilynol i'w wneud ym mis Ebrill |

| Gweithredu | Y Canlyniad Gwreiddiol | Y Sefyllfa ar Hyn o Bryd | Nodiadau a’r Camau Nesaf |
|---|---|---|---|
| **Gweithio gyda’r Awdurdod Lleol a’r cabinet i ddylanwadu ar y polisi lleol ar osod tai** | SS i roi’r wybodaeth ddiweddaraf ar y datblygiadau | Roedd y darn hwn o waith hefyd yn ymwneud â chreu gwell cysylltiadau gyda’r PRS, i wella mynediad at dai ar gyfer cleientiaid Tai yn Gyntaf. Mae’r camau gweithredu uchod yn delio â hyn am y tro, ond gellir archwilio’r pwynt hwn ymhellach yn y dyfodol. | Mae’r nodyn uchod ynghylch y PRS yn berthnasol yma, ond dylid nodi hefyd bod polisïau dyrannu ar hyn o bryd yn ansefydlog oherwydd y pandemig COVID-19. Yn wir, ymddengys fod yna brinder dybryd o eiddo sy’n cael eu cynnig at ddefnydd Tai yn Gyntaf yn yr achos hwn. Mae’r tim wedi trafod gyda chysylltiadau yn Llywodraeth Cymru ynghylch derbyn rhywfaint o gymorth yn y cyd-destun yma. Mae angen monitro’r sefyllfa hon yn ofalus wrth i amser fynd yn ei flaen.<br><br>**Gweithredu:** Gwaith dilynol i’w wneud ym mis Ebrill |
| **Dyfeisio strategaeth ymadael o drefn ariannu gyfredol Llywodraeth Cymru** | SS i rannu strategaeth ym mis Mehefin | Ar hyn o bryd mae hyn yn cael ei ohirio oherwydd bod angen i’r tîm ddeall sut mae cyllid a ryddhawyd yn ystod ‘Cam 2’ ymateb Llywodraeth Cymru i COVID wedi effeithio ar yr awdurdodau lleol perthnasol. | Mae’n naturiol bod COVID, a’r cyllid newydd a rhyddhawyd o ganlyniad iddo, wedi newid y sefyllfa hon. Yn ddiweddar iawn, dyfarnwyd cyllid wedi ei ddiweddaru i’r prosiectau yng Nghonwy a Sir Ddinbych. Mae cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, yn cynnwys cynnydd o £40miliwn yn y Grant Cymorth Digartrefedd ac mae hyn, ynghyd â ffocws cynyddol Llywodraeth Cymru ar ailgartrefu brys, fel yr argymhellwyd gan y Grŵp Gweithredu Digartrefedd, i’w groesawu’n fawr. Wedi dweud hynny, mae newidiadau i drefniadau ariannu’n golygu bod angen monitro’r sefyllfa hon – er enghraifft, petai ariannu Tai yn Gyntaf yn dod yn rhan o’r Grant Cymorth Digartrefedd.<br><br>**Gweithredu:** Gwaith dilynol i’w wneud ym mis Ebrill |

| Gweithredu | Y Canlyniad Gwreiddiol | Y Sefyllfa ar Hyn o Bryd | Nodiadau a’r Camau Nesaf |
|---|---|---|---|
| **Datblygu polisi TyG clir i wneud ymrwymiadau pendant** | SS i rannu polisi TyG ym mis Mai | Mae’r tîm wedi cymeradwyo polisïau’n ymwneud â thybaco a naloxone, a’u lle a’r defnydd ohonynt o fewn y prosiectau Tai yn Gyntaf. Mae polisi ar anifeiliaid anwes – a fyddai’n caniatáu i aelodau o’r staff ddod ag anifeiliaid anwes i weld y cleientiaid, gan eu defnyddio mewn modd therapiwtig – yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.<br><br>Daeth y dull hwn o greu polisïau mwy penodol, gronynnog, i fodolaeth oherwydd ymddengys y byddai’n anodd i awdurdodau lleol gymeradwyo dogfen oedd yn cynnwys Tai yn Gyntaf yn ei gyfanrwydd. Yn ogystal, gallai’r polisïau mwy penodol hyn gael manteision y tu hwnt i’r timau digartrefedd. | Dylai’r tîm barhau i ddatblygu’r polisïau mae arnynt eu hangen er mwyn cyflenwi Tai yn Gyntaf mewn modd effeithiol.<br><br>**Gweithredu:** Gwaith dilynol i’w wneud ym mis Ebrill gyda golwg ar y posibilrwydd o rannu ymarfer da |
| **Lobïo LlC ar fater ariannu yn y tymor hirach, gan weithio gyda Cymorth Cymru yn ôl yr angen** | Staff y prosiect i gwrdd â staff Cymorth Cymru i drafod y cynllun | Mae Sue a’r tîm wedi adrodd i Lywodraeth Cymru dwy gyfrwng adroddiadau chwe-misol, ac maen nhw’n parhau i wneud yr achos dros ariannu yn y tymor hirach. Mae Cymorth Cymru yn parhau i gynrychioli darparwyr cymorth a lobïo Llywodraeth Cymru am ariannu priodol yng nghyd-destun Tai yn Gyntaf. Mae’r broses achredu ynddi’i hun yn gwneud achos clir dros yr angen am ariannu yn y tymor hirach os yw prosiectau’n mynd i fod yn gwbl gyson â’r egwyddorion. | Fel y trafodwyd uchod, mae’r gyllideb ddrafft a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys cynnydd o £40miliwn yn y Grant Cymorth Digartrefedd. Er bod angen monitro cyfundrefnau ariannu, mae hwn yn ddatblygiad positif iawn wrth fynd i mewn i 2021. |
| **Parhau gyda fforymau landlordiaid a datblygu a darparu cyflwyniadau** | SS i roi’r manylion diweddaraf ar ddatblygiadau a ddaw o’r fforymau, yn ôl yr angen, yn cynnwys yn dilyn y cyfarfod cyntaf ym mis Ebrill | Fel y trafodwyd uchod, gohiriwyd y fforymau oherwydd COVID-19, ond mae’r tîm yn datblygu cyflwyniadau y gellir eu hanfon at landlordiaid a’u defnyddio i gefnogi gweithdai ar-lein. | Gweler y pwynt gweithredu cyntaf. |

| Gweithredu | Y Canlyniad Gwreiddiol | Y Sefyllfa ar Hyn o Bryd | Nodiadau a’r Camau Nesaf |
|---|---|---|---|
| **Mynd â chanllaw gweithredu i fforymau landlordiaid, ac addasu’r ddogfen yn ôl yr angen yn seiliedig ar fewnbwn landlordiaid** | SS i roi’r manylion diweddaraf ar ddatblygu canllawiau a mewnbwn gan y rhai fu’n cymryd rhan yn y fforymau | Fel y trafodwyd uchod, mae’r fforymau hyn wedi cael eu gohirio. Mae’r tîm yn gobeithio gwireddu hyn ym mis Ebrill 2021. | Pan fydd y fforymau’n ailddechrau, bydd yn ddiddorol gweld sut bydd y drafodaeth yn datblygu. Gweler y pwynt gweithredu cyntaf. |
| **Rhoi lòg dewis ar waith, gan sicrhau bod dewisiadau o ran eiddo yn parhau i gael eu cynnwys mewn rhestrau o ddyraniadau tai** | Gwneud gwaith dilynol ar weithredu ymhen pedair wythnos, ac yna ar ôl tri mis ar gyfer adolygiad o’r defnydd a wneir ohono | Mae’r gwahanol ddewisiadau a wneir gan gleientiaid bellach yn cael eu cofnodi mewn un lòg, i sicrhau bod popeth yn cael ei nodi a gwersi’n cael eu dysgu, ond heb achosi gormod o lwyth gwaith gweinyddol. | Mae’r lòg dewis yn ddogfen ardderchog, gynhwysfawr.<br><br>**Gweithredu:** Gwaith dilynol ar y defnydd ohono i’w wneud ym mis Ebrill, gyda’r bwriad o rannu ymarfer da |
| **Gofyn i’r swyddog ar y bît fynychu cyfarfodydd o’r tasglu gweithredu a pharhau i fynychu cyfarfodydd misol rhwydwaith yr heddlu** | Gwaith dilynol i’w wneud ymhen tri mis | Mae aelodau o’r tîm yn dal i fynychu cyfarfodydd misol yr heddlu. Weithiau ymddengys fod stori un-ochrog am gleientiaid yn dod i’r golwg, felly mae’r tîm yn sicrhau eu bod yn rhoi mewnbwn i adroddiadau o’r fath.<br><br>Mae’r tasglu gweithredu yn cael ei ailasesu, a bydd yr heddlu’n cael eu tynnu i mewn ar yr adeg berthnasol. | Er gwaethaf y pwynt diddorol am ‘straeon un-ochrog’, sy’n achos pryder, dylid parhau i fynychu – a dylai aelodau o dîm Tai yn Gyntaf barhau i eiriol ar ran cleientiaid a thenantiaid.<br><br>**Gweithredu:** Gwaith dilynol i’w wneud ym mis Ebrill |
| **Diweddaru cynlluniau cymorth** | SS i rannu’r cynlluniau cymorth diweddaraf ym mis Ebrill | Diweddarwyd y cynlluniau cymorth, er nad yw’n orfodol i gleientiaid ymgysylltu â hwy. | Cwblhawyd y camau gweithredu. |

| Gweithredu | Y Canlyniad Gwreiddiol | Y Sefyllfa ar Hyn o Bryd | Nodiadau a'r Camau Nesaf |
|---|---|---|---|
| **Cwblhau'r modiwl sefydlu ar gyfer staff, a chael staff i gymryd y modiwl; nodi hyfforddiant cwnsela priodol ar gyfer staff** | Gwaith dilynol i'w wneud ym mis Gorffennaf | Mae'r modiwl yn parhau i fod yn y cam datblygu.<br><br>Bydd y tîm yn cael eu sesiynau goruchwyliaeth glinigol cyntaf ym mis Rhagfyr 2020. | **Gweithredu:** Gwaith dilynol i'w wneud ym mis Ebrill |
| **Rhoi dalen monitro ar waith ar gyfer cleientiaid sy'n aros mewn llety G&B; parhau i weithio gyda Fforwm y Swyddog Tai a darparu cyflwyniadau i gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch pam nad yw llety dros dro yn ddelfrydol ar gyfer Tai yn Gyntaf** | Gwaith dilynol i'w wneud ymhen tri mis | Ar hyn o bryd, mae'r Tîm Atal Digartrefedd a'r Tîm Diogelu'r Cyhoedd yn gweithredu gwiriadau ar safonau llety y darparwyr. Fel y saif pethau ar hyn o bryd, mae angen i hyn barhau oherwydd bod yr asiantaethau yma'n meddu ar fwy o rym i ddatrys problemau ac, er enghraifft, i gau llety G&B os bydd angen.<br><br>Fel y trafodwyd uchod, gellir defnyddio'r PRS fel dewis amgen i'r defnydd o lety dros dro yn y tymor hir, trefniant nad yw'n ddelfrydol ar gyfer Tai yn Gyntaf, fel y gŵyr y tîm. | Cyhyd ag y bo canlyniadau gwiriadau'r Tîm Atal Digartrefedd a'r Tîm Diogelu'r Cyhoedd yn addas, ymddengys mai hwn yw'r llwybr cywir. Mae trafodaethau ynghylch y ffaith nad yw llety dros dro yn ddelfrydol fel rhan o TyG eisoes wedi digwydd, ac mae'r tîm yn deall hyn yn iawn.<br><br>**Gweithredu:** SS i barhau i weithio i leihau'r defnydd o lety dros dro; gwaith dilynol i'w wneud ym mis Ebrill<br><br>**Gweithredu:** SS i barhau i weithio gyda'r awdurdodau lleol wrth iddynt ddatblygu eu cynlluniau Cam 2; gwaith dilynol i'w wneud ym mis Ebrill |
| **Recriwtio staff Iechyd Meddwl rhan-amser drwy drefniant secondiad** | SS i roi diweddariad pan fo trefniadau secondio yn llwyddiannus | Mae hyn yn dal i fod yn anodd. Yn rhannol oherwydd y pandemig, ni all partneriaid ddarparu'r cymorth sydd ei angen i wneud y secondiad hwn. | **Gweithredu:** SS i barhau i ddod o hyd i ddulliau o wella mynediad at gymorth iechyd meddwl ar gyfer staff a chleientiaid; gwaith dilynol i'w wneud ym mis Ebrill |

| Gweithredu | Y Canlyniad Gwreiddiol | Y Sefyllfa ar Hyn o Bryd | Nodiadau a'r Camau Nesaf |
|---|---|---|---|
| **Lobïo Llywodraeth Cymru am arian ychwanegol ar gyfer cymorth clinigol i staff** | Staff y prosiect i gwrdd â staff Cymorth Cymru a thrafod rolau | Defnyddiwyd cronfeydd sydd wedi eu tan-wario i drefnu cymorth clinigol gan asiantaeth allanol. | **Gweithredu:** SS i benderfynu a yw hwn yn fodel cynaliadwy o ariannu ar gyfer y dyfodol; gwaith dilynol i'w wneud ym mis Ebrill<br><br>**Gweithredu:** SS, ynghyd ag awdurdodau lleol, i archwilio p'un ai a allai'r ariannu ychwanegol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn y gyllideb ddrafft dalu am bethau megis cymorth clinigol |
| **Sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant mewn ymarfer myfyriol** | Gwaith dilynol i'w wneud ymhen chwe mis | Mae'r Tîm Atal Digartrefedd yn rhedeg sesiynau misol, ac anogir staff Tai yn Gyntaf i'w mynychu. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor o waith yn y maes hwn. Y gobaith yw y bydd staff sy'n mynychu sesiynau goruchwyliaeth glinigol, fel y trafodwyd uchod, yn gweithio mewn dull mwy adlewyrchol o ganlyniad. | **Gweithredu:** SS i barhau i ddod o hyd i ddulliau o adeiladu sgiliau adlewyrchol y staff a'u hannog i wneud defnydd priodol o'r sgiliau hyn; gwaith dilynol i'w wneud ym mis Ebrill |
| **Cynnal cyfarfod cyntaf y tasglu gweithredu ym mis Ebrill, a pharhau i fonitro'r grŵp gan sicrhau ei fod yn addas i'r pwrpas** | Gwaith dilynol i'w wneud ymhen tri mis | Unwaith eto, mae dull y grŵp hwn o weithio yn cael ei ailasesu. Yn benodol, bydd natur yr ariannu a ddaw o Lywodraeth Cymru wrth fynd ymlaen yn dylanwadu ar yr hyn y mae angen ei roi ar waith. | **Gweithredu:** Gwaith dilynol i'w wneud ym mis Ebrill |